hyrwyddo'r defnydd ar bob achlysur. Ategwyd yr angen i weithredu'n arloesol ac awgrymodd nad oedd y CCA, yn ei ffurf bresennol, yn cyfarch hyn mewn modd a fyddai'n cyfrannu at newid y patrwm o leihad mewn siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd. Nododd hefyd bod y gweithgor yn ystyried nad oedd y CCA wedi ei baratoi'n ddigonol ar gyfer cynnal Ymgynghoriad Cyhoeddus.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod gofynion rhai o'r argymhellion yn syml ac mai siomedig iawn oedd derbyn bod y Panel wedi gwrthod yr argymhellion er bod tystiolaeth gadarn i'r casgliadau.
- Posibilrwydd bod rhai argymhellion yn groes i bolisi PS1, ond angen bod yn fwy ymatebol i'r sefyllfa
- Bod angen ymgynghori gyda Mudiadau Iaith a Swyddogion Iaith Prifysgol Bangor ac nid swyddogion y Cyngor yn unig.
- Bod yr argymhellion yn rhoi 'cig ar yr asgwrn' i gryfhau'r canllaw yn unol â gofynion yr Aelod Cabinet
- Bod agwedd y swyddogion i ddatganiad 'nad oedd angen ymestyn yr amserlen' yn anodd ei ddeall

Trafodwyd pob argymhelliad drwy ystyried ymateb y Panel a sylwadau / cwestiynau pellach oedd gan y gweithgor i'r ymatebion hynny.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Swyddogion y sylwadau isod:

- Bod sylwadau'r gweithgor wedi eu cyfarch drwy roi mwy o wybodaeth ar rai elfennau o'r Canllaw
- Bod y Canllaw yn fwy eglur o ganlyniad i rai sylwadau
- Bod mwy o bwyslais ar yr ymgeisydd i ymgymryd â'r gwaith asesu
- Bod disgwyl i'r ymgeisydd gyflawni'r gofynion perthnasol - byddai diffyg gwneud hyn yn gallu effeithio ar y penderfyniad. Pwysau ar yr ymgeisydd i weithredu'n briodol
- I ystyried dau o'r argymhellion (1a ac 1b) byddai rhaid addasu polisi PS1.Nid yw hyn yn bosib nag yn briodol i waith y Panel.
- Nad oedd yr argymhellion wedi eu hanwybyddu – rhai addasiadau wedi eu gweithredu
- Bod y gwaith paratoi ieithyddol wedi cael ei baratoi gyda chefnogaeth swyddogion iaith a bod y Canllaw yn adnabod sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru
- Yng nghyd-destun ymchwil a dadansoddeg nodwyd bod y Canllaw yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr sydd gan yr Uned Polisi i rannu gyda'r ymgeisydd wrth gwblhau asesiadau.
- Yng nghyd-destun ymgysylltu ac ymgynghori, amlygwyd bod yr egwyddorion ymgysylltu wedi eu hystyried a bod y gwaith ymgysylltu yn cael ei gyfarch a'r trefniadau yn cydymffurfio a'r angen. Amlygwyd bod cynllun ymgysylltu wedi ei ystyried gan Swyddogion Ymgysylltu'r Cyngor ac y byddai yn atodiad i adroddiad fyddai yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Polisi ar y Cyd (26.4.18).
- Yng nghyd-destun ymestyn yr amserlen i sicrhau bod gwaith o'r safon uchaf posib yn cael ei gyflawni, nodwyd mai penderfyniad y Panel oedd nad oedd angen mwy o amser.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut y gellid addasu gwendidau mewn polisïau, nodwyd bod bwriad monitro'r polisïau yn flynyddol. Gyda'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi ei fabwysiadu ers Gorffennaf 2017, ategwyd nad oedd tystiolaeth i gyfiawnhau nad oedd y polisïau yn gweithio hyd yma.

Mewn ymateb i awgrym mai dymuniad Gwynedd yw addasu'r Canllaw i flaenoriaethu'r

Iaith Gymraeg ac y gallai weithredu ar ben ei hun, nodwyd bod hyn yn gyfreithiol bosib, ond yn ymarferol, buasai risgiau sylweddol i'r Cyngor. Ategwyd bod y trefniant wedi sicrhau arbedion ariannol a byddai gwahanu yn tanseilio perthynas waith da rhwng y ddau Gyngor sydd wedi arloesi yn y maes. Ategodd y Cadeirydd nad oedd tystiolaeth o wahaniaeth barn rhwng Gwynedd a Môn.

Mewn ymateb i'r drafodaeth, nododd Pennaeth Gwasanaeth yr Amgylchedd y byddai disgwyliad i'r Pwyllgor Polisi ar y Cyd gael cyfle i ystyried y sylwadau a'r cwestiynau pellach a gyflwynwyd gan y Gweithgor ynghyd a sylwadau'r Pwyllgor Craffu.

Cynigiwyd ac eiliwyd cyflwyno sylwadau ychwanegol y gweithgor a'r Pwyllgor Craffu i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd eu hystyried

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhellion

**PENDERFYNWYD:**

- **Cyflwyno sylwadau ychwanegol y Gweithgor a'r Pwyllgor Craffu i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd eu hystyried**
- **Derbyn yr argymhellion a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.**
- **Gwneud cais i'r swyddogion polisi am ymateb llawn y panel i'r egwyddorion ymgysylltu**

## 6. TORRI GWAIR - TIROEDD AGORED Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet yn ceisio barn y Pwyllgor Craffu ar yr angen i wneud arbediad pellach o fewn y gwasanaeth. Amlygwyd bod toriadau Her Gwynedd wedi eu cyflawni, ond bod £50k o arbedion effeithlonrwydd heb eu cwblhau (2017/2018). Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried camau fel, lleihau amlder torri gwair o 3 toriad i 2 yn flynyddol ar gyrion pentrefi a threfi a darparu llai o lecynnau blodau.
Teimlai'r Aelod Cabinet bod yr Adran wedi mynd mor bell ag y gallent a mynegodd y byddai torri pellach yn debygol o greu mwy o broblemau. Gofynnodd i'r Pwyllgor am eu harweiniad i geisio adnabod toriadau ariannol pellach fydd yn debygol o gael effaith ar edrychiad pentrefi a threfi'r Sir.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod angen ystyried a pharatoi cynlluniau cytbwys
- Cyfle i fod yn arloesol a chreu partneriaethau cymunedol i gynnal llecynnau blodau a mynwentydd
- Ystyried noddi cwmnïau i fabwysiadu cylchfannau a llecynnau blodau
- Ystyried cynlluniau amgen – ceisio cael grwpiau cymunedol i fabwysiadau tiroedd
- Cynnal cystadleuaeth rhwng pentrefi / trefi / cymunedau
- Ystyried cydweithio gyda Bwrdd Iechyd gan annog prosiectau llesiant
- Ystyried defnyddio gorchmynion Gwasanaethau Cymunedol (os yn gyfreithiol bosib)
- Ystyried goblygiadau peidio torri gwair a gwrychoedd yng nghyd-destun iechyd a diogelwch. A fydd cynnydd yn nifer hawliadau yswiriant o bosib, yn cael effaith sylweddol ar yr arbediad?
- Rhaid i amserlen torri gwair fod yn gywir
- Awgrym y gall Cynghorau Cymuned gynorthwyo gyda'r gwaith.
- Bod posib ystyried myfyrwyr cyrsiau garddwriaeth Coleg Menai
- Ystyried defnyddio gwair artiffisial ar ymylon ffyrdd o fewn parthau 30 mya

Cynigiwyd ac eiliwyd newid amlder torri meysydd chwarae a mynwentydd o 6 i 5

Mewn ymateb, nododd Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol bod lleihau amlder torri gwair mynwentydd o 8 i 6 wedi derbyn nifer fawr o gwynion ac felly bod angen ystyried yn ofalus goblygiadau'r cynnig o dorri ymhellach.

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn sylw'r Pennaeth Adran bod peryg gwneud arbedion torri gwair pellach ac edrych ar wireddu arbediad £29k drwy wario llai ar welyau blodau. Awgrymwyd i'r Adran ymchwilio ymhellach i syniadau amgen.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i'r cynnig i edrych ar wireddu arbediad £29k drwy wario llai ar welyau blodau. Awgrymwyd i'r Adran ymchwilio ymhellach i syniadau amgen ac yn y tymor hir sefydlu partneriaethau ac ystyried cynllun noddi.

**PENDERFYNWYD:**

- **Gwireddu arbediad £29k drwy wario llai ar welyau blodau.**
- **Awgrymwyd i'r Adran ymchwilio ymhellach i syniadau amgen ac yn y tymor hir sefydlu partneriaethau a chyflwyno cynllun noddi.**

## 7. TREIAL GORFODAETH STRYD

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu argymell ffordd ymlaen er mwyn ceisio gwella'r ddarpariaeth i wella glendid ac edrychiad strydoedd y Sir. Yn unol ag argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau 22.9.16 i'r Cyngor edrych ar allanoli elfennau o waith y tîm gorfodi i ategu gwaith y tîm mewnol, comisiynwyd cwmni allanol i gynnal treial am flwyddyn. Dechreuodd y treial ym mis Chwefror eleni ond wedi ychydig ddyddiau cytunwyd ar gais y cwmni i'r cytundeb ddod i ben. Yn dilyn aflwyddiant y treial, cyfeiriwyd at restr posib o opsiynau oedd angen i'r Pwyllgor eu hystyried i sicrhau mynd i'r afael â gorfodaeth stryd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Awgrym i ddefnyddio ac ehangu cyfrifoldebau a hawliau swyddogion morwrol, cymhorthyddion traethau a harbwr ynghyd â swyddogion gorfodaeth traffig
- Cyfle i gadw gwaith o fewn y Cyngor a defnyddio'r ddarpariaeth bresennol
- Cynnig i adolygu dirwyon
- Angen ystyried pwysau gwaith ychwanegol

Awgrymwyd ehangu cydweithio rhyngadrannol (opsiwn 4)
Awgrymwyd ystyried y ddarpariaeth bresennol (opsiwn 3)
Awgrymwyd cydweithio gyda Siroedd eraill (opsiwn 2)

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r rhesymau pam daeth y cytundeb gyda'r cwmni allanol i ben, nodwyd bod problemau wedi codi wrth recriwtio a chadw staff dwyieithog oedd yn unol â pholisïau'r Cyngor. Ategwyd bod y treial wedi bod yn llawer rhy fyr i fesur yr effaith.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyfansymiau dirwyon, nodwyd bod dirwy yn £100 ac os telir o fewn 10 diwrnod bydd yn gostwng i £75. Ategwyd bod nifer y dirwyon yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru, ond bod gwahaniaeth sylweddol yn y cyfansymiau rhwng Awdurdodau sydd gydag neu heb, gwmnïau preifat. Mewn ymateb i gwestiwn dilynol ynglŷn ag adolygu cyfansymiau'r dirwyon drwy ystyried pob sefyllfa yn ei dro, mynegodd yr Aelod Cabinet ei fwriad i'r

bod y Panel wedi gwrthod yr argymhellion er bod tystiolaeth gadarn i'r casgliadau.

- Posibilrwydd bod rhai argymhellion yn groes i bolisi PS1, ond angen bod yn fwy ymatebol i'r sefyllfa
- Bod angen ymgynghori gyda Mudiadau Iaith a Swyddogion Iaith Prifysgol Bangor ac nid swyddogion y Cyngor yn unig.
- Bod yr argymhellion yn rhoi 'cig ar yr asgwrn' i gryfhau'r canllaw yn unol â gofynion yr Aelod Cabinet
- Bod agwedd y swyddogion i ddatganiad 'nad oedd angen ymestyn yr amserlen' yn anodd ei ddeall.

Trafodwyd pob argymhelliad drwy ystyried ymateb y Panel a sylwadau a chwestiynau pellach oedd gan y gweithgor i'r ymatebion hynny. (Atodiad 1)

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Swyddogion Cynllunio'r sylwadau isod:

- Bod sylwadau'r gweithgor wedi eu cyfarch drwy roi mwy o wybodaeth ar rai elfennau o'r Canllaw
- Bod y Canllaw yn fwy eglur o ganlyniad i rai sylwadau
- Bod mwy o bwyslais ar yr ymgeisydd i ymgymryd â'r gwaith asesu
- Bod disgwyl i'r ymgeisydd gyflawni'r gofynion perthnasol - byddai diffyg gwneud hyn yn gallu effeithio ar y penderfyniad. Pwysau ar yr ymgeisydd i weithredu'n briodol
- I ystyried dau o'r argymhellion (1a ac 1b) byddai rhaid addasu polisi PS1.Nid yw hyn yn bosib nac yn briodol i waith y Panel.
- Nad oedd yr argymhellion wedi eu hanwybyddu – rhai addasiadau wedi eu gweithredu
- Bod y gwaith paratoi ieithyddol wedi cael ei baratoi gyda chefnogaeth swyddogion iaith a bod y Canllaw yn adnabod sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru
- Yng nghyd-destun ymchwil a dadansoddeg nodwyd bod y Canllaw yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr sydd gan yr Uned Polisi i rannu gyda'r ymgeisydd wrth gwblhau asesiadau.
- Yng nghyd-destun ymgysylltu ac ymgynghori, amlygwyd bod yr egwyddorion ymgysylltu wedi eu hystyried a bod y gwaith ymgysylltu yn cael ei gyfarch a'r trefniadau yn cydymffurfio a'r angen. Amlygwyd bod cynllun ymgysylltu wedi ei ystyried gan Swyddogion Ymgysylltu'r Cyngor ac y byddai yn atodiad i adroddiad fyddai yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Polisi ar y Cyd (26.4.18).
- Yng nghyd-destun ymestyn yr amserlen i sicrhau bod gwaith o'r safon uchaf posib yn cael ei gyflawni, nodwyd mai penderfyniad y Panel oedd nad oedd angen mwy o amser.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut y gellid addasu gwendidau mewn polisïau, nodwyd bod bwriad monitro'r polisïau yn flynyddol. Gyda'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi ei fabwysiadu ers Gorffennaf 2017, ategwyd nad oedd tystiolaeth i gyfiawnhau nad oedd y polisïau yn gweithio hyd yma.

Mewn ymateb i awgrym mai dymuniad Gwynedd yw addasu'r Canllaw i flaenoriaethu'r Iaith Gymraeg ac y gallai weithredu ar ben ei hun, nodwyd bod hyn yn gyfreithiol bosib, ond yn ymarferol, buasai risgiau sylweddol i'r Cyngor. Ategwyd bod y trefniant wedi sicrhau arbedion ariannol a byddai gwahanu yn tanseilio perthynas waith da rhwng y ddau Gyngor sydd wedi arloesi yn y maes. Ategodd y Cadeirydd nad oedd tystiolaeth o wahaniaeth barn rhwng Gwynedd a Môn.

Mewn ymateb i'r drafodaeth, nododd Pennaeth Gwasanaeth yr Amgylchedd y byddai disgwyliad i'r Pwyllgor Polisi ar y Cyd gael cyfle i ystyried y sylwadau a'r cwestiynau pellach a gyflwynwyd gan y Gweithgor ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor Craffu.

Cynigiwyd ac eiliwyd cyflwyno sylwadau ychwanegol y gweithgor a'r Pwyllgor Craffu i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd eu hystyried

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhellion

**PENDERFYNWYD:**

- **Cyflwyno sylwadau ychwanegol y Gweithgor a'r Pwyllgor Craffu i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd eu hystyried**
- **Derbyn yr argymhellion a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.**
- **Gwneud cais i'r swyddogion polisi am ymateb llawn y panel i'r egwyddorion ymgysylltu**

**DIWEDDARIAD ers 19 Ebrill 2018**

**17** **<u>Cyfarfod y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 26 Ebrill 2018</u>**

**Penderfyniad y Pwyllgor oedd**

- **Derbyn 6 argymhelliad y Pwyllgor Craffu**
- **Gohirio'r ymgynghoriad ar y Canllaw drafft**
- **Gohebu gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cael cadarnhad o'r dymuniad i gyfeirio pob Cais Cynllunio am Ymgynghoriad Cyhoeddus i gynnwys Asesiad Effaith Ieithyddol.**
- **Cysylltu gydag Aelodau'r Gweithgor ac Arbenigwyr er mwyn cael arweiniad wrth addasu'r Canllaw drafft ar faterion Cynllunio Ieithyddol, Ymchwil a Dadansoddeg, Ymgysylltu ac Ymgynghori.**

**18** **Cafwyd yr wybodaeth ganlynol gan y Rheolwr Polisi Cynllunio:**

- **Bwriad i anfon llythyr at Lywodraeth Cymru i holi am hawliau i newid polisi mewn cynllun datblygu lleol a hawliau i newid y trothwy i osod**

**gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer 5 tŷ mewn pentrefi a chefn gwlad yn lle 10 tŷ.**

- **Bwriad i anfon y llythyr yn ystod yr wythnos yn cychwyn 28 Mai 2018.**
- **Bwriad i gomisiynu arbenigwyr allanol cymwys i ymgymryd â gwerthusiad beirniadol o'r Canllaw Cynllunio Atodol, ac yn benodol Adran 2 o'r Canllaw hwnnw.**
- **Rhoi trefniadau yn eu lle i dderbyn dyfynbrisiau i ymgymryd â'r gwaith. (Ni chafwyd manylion llawn am y trefniadau. Deellir y disgwylir i'r ymgymerwr llwyddiannus gyflwyno adroddiad erbyn 6 Gorffennaf 2018.)**
- **Bwriedir cyflwyno ymateb Llywodraeth Cymru, Adroddiad yr Ymgymerwr a'r Canllaw Diwygiedig i'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Gorffennaf/Medi 2018.**

**19 Anfonwyd yr ymateb canlynol gan Aelodau'r Gweithgor Craffu:**

- **Gofyn cwestiwn mwy penodol i Lywodraeth Cymru – *A oes unrhyw reswm pam na ellir cyfeirio pob cais gan ddatblygwr i adeiladu 10 neu fwy o dai mewn ardal drefol a 5 neu fwy o dai mewn ardal wledig am ymgynghoriad cyhoeddus i gynnwys asesiad iaith?***
- **Mae'n bur annhebygol y bydd un ymgymerwr yn arbenigwr ym maes Cynllunio, Cynllunio Ieithyddol, Data a Dadansoddeg ac Ymgysylltu ac Ymgynghori.**
- **Tybed a ydy eich disgwyliadau chi braidd yn rhy uchelgeisiol?**
- **Mae'n bosibl y byddai rhai arbenigwyr yn barod i gyfrannu eu harbenigeddau pe byddech yn cysylltu â hwy'n uniongyrchol.**

**20 Ni chafwyd ymateb i'r sylwadau hyd yn hyn.**

**21 Yn ogystal, rhoddwyd ystyriaeth gan Aelodau'r Gweithgor Craffu i sut y bwriedir gweithredu ar y *Canllaw Cynllunio Atodol* yng nghyd-destun gofynion y *Nodyn Cynllunio Technegol (TAN) 20* newydd.**

- **Ystyriwyd manylion *Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg***
- **Ystyriwyd Papur Trafod ar yr *Angen Lleol am Dai a'r Gymraeg yn y System Gynllunio***
- **Cafwyd cyfarfod gydag *Aelod Cynulliad Arfon* i drafod yr uchod.**

